# Datganiad Blynyddol am Uniondeb Ymchwil

2020-21

(P2122-202)

**CYFLWYNIAD**

***Dyma 6ed Datganiad Blynyddol Prifysgol Abertawe am Uniondeb Ymchwil ac mae'n berthnasol i'r cyfnod academaidd 2020/21.*** Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb byr o'r gweithgareddau a wnaed gan y Brifysgol i ddangos ei hymrwymiad i bum egwyddor y ***Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil***.

Fel sefydliad sydd wedi llofnodi'r Concordat, diwygiodd y Brifysgol ei strwythurau llywodraethu, ei pholisïau a'i phrosesau parthed Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yn 2015.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w staff (gan gynnwys staff er anrhydedd), ei myfyrwyr, ei hymwelwyr a'i chydweithredwyr ymgymryd ag ymchwil yn unol â'r polisïau a'r prosesau uniondeb ymchwil a gyhoeddwyd yn Fframwaith Polisi Uniondeb Ymchwil Prifysgol Abertawe, Uniondeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraethu ac yn nhudalennau ymchwil y Brifysgol ar y we.

Mae rhagor o arweiniad a hyfforddiant ar brosesau moeseg a llywodraethu ymchwil ar gael i staff a myfyrwyr y Brifysgol drwy dudalennau mewnrwyd y Brifysgol.

## 1. Cryfhau Uniondeb Ymchwil

**CRYNODEB O GAMAU GWEITHREDU A GWEITHGAREDDAU (2020-21)**

### ➢ Strategaeth Ymchwil ac Arloesi (2020-2025)

Cafodd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol ar gyfer 2020-2025 ei diwygio a'i chymeradwyo gan Senedd y Brifysgol. Mae'r strategaeth yn gwneud yr ymrwymiadau canlynol o ran diwylliant ac uniondeb ymchwil:

1. “Byddwn yn hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol sy'n ein galluogi i gyflawni ein huchelgeisiau, gan fanteisio ar werth cronnol gwybodaeth, amser ac ymdrechion arweinwyr ymchwil. Rydym wedi llofnodi'r Concordat ar gyfer ymchwilwyr a bydd ein hymagwedd ymchwil agored yn sicrhau y byddwn yn cyhoeddi ymchwil o'r radd flaenaf a'r uniondeb mwyaf. Bydd ein diwylliant yn ehangu cyfleoedd i'n hymchwilwyr gyflawni eu potensial llawn.”
2. “Byddwn yn cynnal cymuned ymchwil a diwylliant ymchwil sy'n grymuso unigolion i wneud gwaith ymchwil yn unol â'r safonau uniondeb uchaf. Fel prifysgol â phwyslais rhyngwladol sy'n ymrwymedig i ddatrys problemau byd-eang, yn ogystal â rhai cenedlaethol, mae ein strategaeth yn amlinellu ein hymagwedd at ymchwil ac arloesi drwy bartneriaethau. Rydym yn ymwybodol bod hyn yn cynyddu'r potensial y byddwn yn agored i risgiau yn ein holl weithgareddau. Byddwn yn nodi risgiau o ran enw da, moeseg a diogelwch yn ein prosesau ffurfiol ac yn mireinio'r prosesau gorau gartref a thramor i ddiogelu'r sefydliad, ein pobl a'u hymchwil.”

**Erbyn 2022**, byddwn wedi gwneud y canlynol:

- Atgyfnerthu diwylliant o uniondeb ymchwil a rhannu gwybodaeth ymchwil agored gan uwch-ymchwilwyr ac uwch-reolwyr, gan sicrhau bod allbynnau ymchwil cadarn o'r radd flaenaf yn cael eu cyhoeddi.
- Gwella ein prosesau diwydrwydd dyladwy cadarn ar gyfer mentrau ymchwil rhyngwladol cydweithredol, gan liniaru risgiau a rhoi polisïau a chytundebau drwy gontract ar waith i ddiogelu eiddo deallusol, gan lynu wrth yr un safonau â gweddill y byd.
- Sefydlu ein hacademi Ysgolheictod Agored

- Mabwysiadu ymagwedd gwyddoniaeth agored ac ysgolheictod agored ym mhob rhan o'r Brifysgol er mwyn sicrhau bod modd craffu ar ein data a'n tystiolaeth sylfaen, gan wella atgynyrchioldeb ymchwil er lles ein henw da a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Darparu ymagwedd prifysgol gyfan at ariannu, galluogi, datblygu a gwobrwyo mynediad agored, rheoli data ymchwil, gwyddoniaeth dinasyddion.
- Integreiddio’n llawn ein hymagwedd at asesu ymchwil, yn seiliedig ar egwyddorion Datganiad San Francisco am Asesu Ymchwil (DORA).
- Gwreiddio egwyddorion arloesi cyfrifol, gan hyrwyddo arloesi sy’n ddymunol yn gymdeithasol er lles y cyhoedd a chreu ffyrdd o archwilio cymhellion ac effeithiau anrhagweladwy, er gwell neu er gwaeth.

**Erbyn 2025**, byddwn wedi gwneud y canlynol:

- Annog tryloywder a chyfathrebu agored wrth gyhoeddi canlyniadau negyddol neu nwl fel rhan o'r broses ymchwil.
- Ymdrin ag uniondeb ymchwil drwy ei gydnabod mewn adolygiadau perfformiad, yn ogystal ag ystyried cynllunio modelu llwythi gwaith a phrosesau perthnasol eraill ar gyfer rheoli staff.
- Parhau i ganolbwyntio ar ein defnydd cyfrifol o fetrigau ymchwil, yn enwedig ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwobrwyo a chydnabod staff.
- Dangos ein hymrwymiad i wrthsefyll newid amgylcheddol. Bydd cynaliadwyedd yn un o'n blaenoriaethau wrth ystyried ein camau gweithredu, yn ogystal â'n gweithgarwch ymchwil a'i effaith.

## Llywodraethu ac Arweinyddiaeth:

- **Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol – (Diwylliant Ymchwil)** Mae'r Brifysgol wedi hysbysebu rôl newydd Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Diwylliant Ymchwil) yn ddiweddar. Gan gydweithio ag ymchwilwyr, bydd deiliad y swydd yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o uniondeb ymchwil, a chydweithrediad ac ysgolheictod agored. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol yn arwain Academi Ysgolheictod Agored Abertawe ac yn paratoi ar gyfer llwyddiant yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf.

- **Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol**: Yn 2021-22, sefydlwyd Pwyllgor Uniondeb Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol (URIEGC) i ddisodli Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil (UREGSC) y Brifysgol. Bydd URIEGC yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd a Chyngor y Brifysgol, yn wahanol i UREGSC, a oedd yn adrodd i Bwyllgor Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol. Bydd y trefniadau adrodd diwygiedig yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol yn ogystal â chynyddu tryloywder, atebolrwydd a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion uniondeb ymchwil.

- **Polisi'r Brifysgol ar gyfer Chwythu'r Chwiban:** Mae Polisi'r Brifysgol ar gyfer Chwythu'r Chwiban wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar a'i fabwysiadu gan Senedd a Chyngor y Brifysgol.

- **Proses ar gyfer adrodd data am fwlio ac aflonyddu i gyllidwyr ymchwil:** Gwnaeth Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Senedd, Pwyllgor Arloesi ac Effaith Ymchwil y Brifysgol a Phwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol gymeradwyo proses ar gyfer adrodd data am fwlio ac aflonyddu i gyllidwyr ymchwil. Yn sgil yr arweiniad hwn, caiff Polisi'r Brifysgol ar gyfer Urddas yn y Gweithle ac wrth Astudio ei ddiwygio i gynnwys ‘ymchwil’ ymysg y meini prawf adrodd. Bu ymgynghoriad ehangach ar y broses hon ag undebau llafur ar y campysau hefyd.

- **Goruchwylio ymchwil a noddir a thrwydded y sefydliad i weithio gyda meinweoedd dynol:** Mae pwyllgor goruchwylio'n cael ei sefydlu i adolygu a monitro'r holl ymchwil a noddir. Hysbysebwyd rôl Swyddog Sicrhau Ansawdd i fonitro prosiectau sy'n ymwneud â'r GIG. Mae'r Brifysgol wedi ailasesu ei gofynion ar gyfer trwydded meinweoedd dynol ac mae'n gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau bod y cytundebau trwyddedu sydd ar waith yn briodol i'r gofynion ymchwil a bod y gwaith monitro'n gymesur â'r drwydded. Mae'r adolygiad wedi amlygu gofyniad am drwydded safle ar wahân ar

gyfer y Brifysgol, sy'n annibynnol ar y bwrdd iechyd. Mae'r gofynion staffio i ddarparu'r sicrwydd o ran cydymffurfio â safonau'r drwydded yn cael eu hadolygu.

- **Polisïau, Prosesau a Chanllawiau:**

Adolygwyd y Fframwaith Polisi Uniondeb Ymchwil yn 2020-21 i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, gofynion rheoleiddio ac arferion ymchwil. Cymeradwyodd Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol y canllawiau newydd canlynol sydd wedi cael eu cynnwys yn y Fframwaith Polisi.

- Canllaw ar asesu risg i enw da
- Canllaw ar Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer gweithgareddau ymchwil
- Adnodd archwilio ar gyfer pwyllgorau moeseg y cyfadrannau/ ysgolion (wedi'i addasu o ARMA/UKRIO)
- Canllaw ar gymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymchwil addysgegol
- Canllaw ar ymchwil serendipaidd
- Proses ar gyfer adrodd data am fwlio ac aflonyddu i gyllidwyr ymchwil

- **System Adolygu Moesegol Ar-lein:**

Yn sgil archwiliad mewnol ar uniondeb ymchwil a thrwy ymgynghori â chadeiryddion pwyllgorau moeseg, cadarnhawyd y byddai'r Brifysgol yn elwa o system ar-lein ar gyfer cymeradwyo ceisiadau ymchwil ar sail foesegol. Byddai system o'r fath yn cyflwyno tryloywder a chysondeb wrth asesu ceisiadau ymchwil ac yn helpu i gategoreiddio a monitro ymchwil yn unol â gofynion diwydrwydd dyladwy cyllidwyr ymchwil. Sicrhawyd cyllid i brynu system o'r fath. Rhagwelir y caiff grŵp tasg a gorffen prosiect ei sefydlu yn 2021-22 i gwblhau'r broses o roi'r system ar waith.

- **Tudalennau gwe Uniondeb Ymchwil:**

Cafodd tudalennau gwe uniondeb ymchwil ac iechyd a diogelwch ymchwilwyr y Brifysgol eu diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth a phrotocolau asesu risg ar gyfer ymchwilwyr yng nghyd-destun Covid-19. Cafodd arweiniad a gwybodaeth newydd am hyfforddiant eu lanlwytho wrth iddynt gael eu cymeradwyo.

## 2. Cefnogi datblygiad ymchwilwyr

- **Hyfforddiant a Datblygiad:**

Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil Ar-lein: Yn 2020, adnewyddodd y Brifysgol ei thrwydded am hyfforddiant uniondeb ymchwil ar-lein Oxford University Press (Epigeum). Ychwanegwyd cwblhau hyfforddiant uniondeb ymchwil yn llwyddiannus at ofynion cymwyseddau craidd datblygiad gyrfaol staff ar y Llwybr Gyrfa Academaidd. Mae rheolwyr llinell yn monitro a yw staff academaidd yn cwblhau'r hyfforddiant **gorfodol** drwy'r broses datblygiad proffesiynol flynyddol. Trafodir hyfforddiant staff yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol a chaiff adroddiadau rheolaidd eu dosbarthu i benaethiaid cyfadrannau/ysgolion er gwybodaeth.
Mae myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant uniondeb ymchwil a disgwylir iddynt gwblhau pob un o'r 12 modiwl gorfodol yn ystod eu blwyddyn astudio gyntaf a chyn rhoi adolygiad moesegol a chadarnhau eu hymgeisyddiaeth.

Hyfforddiant Diogelu Ar-lein : Cafodd trwydded y pecyn hyfforddiant ar-lein ar ddiogelu mewn addysg uwch ei hadnewyddu am dair blynedd arall. Rhaid i ymchwilwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed gwblhau'r hyfforddiant **gorfodol** hwn cyn dechrau gwneud gwaith ymchwil. Mae'r hyfforddiant yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol am ofynion rheoleiddiol i ymchwilwyr.

Hyfforddiant wyneb yn wyneb: O ganlyniad i bandemig Covid-19, daeth hyfforddiant wyneb yn wyneb ar uniondeb ymchwil, llywodraethu ymchwil a meinweoedd dynol i ben.

Cyfres o seminarau am Uniondeb Ymchwil: O ganlyniad i Covid-19, nid oedd modd cynnal y gyfres o seminarau drwy'r Sefydliad Ymchwil Moeseg a'r Gyfraith (RIEL).

Cyfres Gweminarau UKRIO: Dosbarthwyd gwybodaeth yn rheolaidd i aelodau Pwyllgor Uniondeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraethu'r Brifysgol am weminarau misol Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) a bu'r sesiynau'n ddefnyddiol ac yn addysgol yn ôl y staff a gymerodd ran ynddynt.

## 3. Ymdrin â honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil yn dryloyw, yn deg ac yn gadarn

- **Camymddygiad mewn Ymchwil:**

Yn 2020, newidiwyd y 'Cyswllt a Enwir' ar gyfer derbyn honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil o'r Prif Swyddog Gweithredu/Cofrestrydd i'r Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi). Cyhoeddir manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost pwrpasol, ar dudalennau gwe'r Brifysgol. Gall unrhyw unigolyn weld y polisi ar honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil a sut i roi gwybod am bryder drwy dudalennau gwe ymchwil Prifysgol Abertawe: Camymddygiad mewn Ymchwil.
Y Rheolwr Uniondeb Ymchwil yw'r trydydd parti dynodedig sy'n cydlynu'r broses gyfrinachol hon. Cynhelir pob proses sgrinio ac ymchwiliad i gamymddygiad mewn ymchwil yn unol â pholisi'r Brifysgol ac mae'r paneli ymchwilio'n cynnwys aelod allanol o sefydliad addysg uwch arall yn y DU.

Yn 2020/21 derbyniwyd yr honiadau canlynol gan y Brifysgol a chawsant eu prosesu yn unol â'i pholisi ar gamymddygiad mewn ymchwil.

| Blwyddyn | Honiad | Natur y camymddygiad honedig | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 2020 | 1 | Dyfeisio a Ffugio Data | Sefydlwyd panel ymchwilio.<br><br>Tystiolaeth *prima facie* o ddyfeisio a ffugio data. Rhoddwyd terfyn ar gontract cyfnod penodol. |
| 2020 | 2 | Anghydfod am awduraeth (Traws-sefydliadol) | Datryswyd drwy gyfryngu. |
| 2020 | 3 | Llên-ladrad<br><br>(Traws-sefydliadol) | Panel sgrinio. Ni ellid canfod unrhyw dystiolaeth *prima facie*. |
| | | | |
| 2021 | 1 | Llên-ladrad, camliwio buddiannau, torri dyletswydd gofal | Panel sgrinio. Ni ellid canfod unrhyw dystiolaeth *prima facie*. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | drwy esgeulustod difrifol | |
| 2021 | 2 | Defnyddio data'n dwyllodrus | Cafodd papur cyfnodolyn ei adolygu gan gymheiriaid yn allanol a chyflwynwyd cywiriad. Datryswyd yr achos drwy gyfryngu gan nad oedd modd nodi achos. |
| 2021 | 3 | Llên-ladrad (defnyddio syniad a phrosesau unigolyn arall heb ei gydnabod yn briodol) | Datryswyd yr achos drwy gyfryngu gan nad oedd modd nodi achos. |

## 4. Adolygu prosesau'n rheolaidd ac yn agored

- **Sefydlu pwyllgor goruchwylio nawdd**
  Ar ôl adolygu'r prosesau presennol, amlygwyd y gofyniad i sefydlu pwyllgor goruchwylio nawdd er mwyn sicrhau bod astudiaethau staff a myfyrwyr a noddir gan Brifysgol Abertawe'n cydymffurfio â gofynion Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil i Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2017) a/neu Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 a diwygiadau diweddarach, ac yn glynu wrth safonau Ymarfer Clinigol Da.

- **Polisi ar ymchwil yr ymddiriedir ynddi:**
  Mae ymchwilwyr y Brifysgol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o bedwar ban byd. Mae datblygu a chynnal y perthnasoedd rhyngwladol hyn yn allweddol i lwyddiant y Brifysgol o ran ymchwil ac arloesi. Gan fod ymchwil ar y cyd yn agored i gamddefnydd gan gyrff a sefydliadau sy'n gweithredu mewn cenhedloedd lle gallai'r gwerthoedd moesegol fod yn wahanol i'n rhai ni, mae'n hanfodol bod y Brifysgol yn llunio polisi ar ymchwil yr ymddiriedir ynddi. Mae'r broses honno ar waith.

- **Memorandwm o Ddealltwriaeth gydag Awdurdod Iechyd Lleol y GIG**
  Mae Memorandwm o Ddealltwriaeth diwygiedig o ran noddi ar y cyd yn cael ei lunio rhwng y Brifysgol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Disgwylir i hwn gynnwys dirprwyo cyfrifoldebau am dreialon clinigol cynnyrch meddyginiaethol ymchwiliol i Uned Dreialon Abertawe.

- **Fframwaith Diwydrwydd Dyladwy Partneriaethau Cydweithredol**
  Yn sgil adroddiad yr archwiliad mewnol, cymeradwyodd Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu'r polisïau, y protocolau a'r prosesau presennol a chreu Fframwaith Diwydrwydd Dyladwy trosfwaol i'r Brifysgol ar gyfer gweithgareddau cydweithredol ar bob lefel.

## Heriau ar gyfer 2021/22:

- **rhoi system ar-lein ar waith ar gyfer adolygiadau moesegol**
  Er mwyn diwallu anghenion myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion, sefydlu system ar-lein addas at ddiben cymeradwyo ceisiadau ymchwil ar sail foesegol fydd yr her gyntaf yn 2021/22. Rhagwelir y gellir rhoi system o'r fath ar waith o fewn blwyddyn gyda chymorth aelodau grŵp tasg a gorffen sy'n cynnwys staff o'r cyfadrannau a chyda chymorth arbennig aelodau o'r systemau isadeiledd.

- **Ymgysylltu a chynyddu ymwybyddiaeth o uniondeb ymchwil**

  Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrechion anferth i gyflawni a chefnogi ymrwymiad y Brifysgol i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. O ganlyniad, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa well nag erioed mewn perthynas â pholisïau, prosesau, protocolau, hyfforddiant a gwybodaeth ar gyfer staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau newid diwylliannol ac i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith ymchwilwyr o fanteision arddel uniondeb wrth ymgymryd ag ymchwil. Drwy benodi Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol newydd ar gyfer Diwylliant Ymchwil ac Ymchwil Agored, rhagwelir y bydd newid diwylliannol wrth i'r staff deimlo'n fwy galluog i arddel uniondeb wrth ymgymryd ag ymchwil ac i fod yn hyderus wrth fynegi pryderon am uniondeb ymchwil.

- **Cynyddu ymwybyddiaeth o brosesau rhoi gwybod am gamymddygiad mewn ymchwil, bwlio ac aflonyddu**

  O ganlyniad i ofynion cyllidwyr ymchwil i adrodd am achosion o dorri'r rheolau mewn perthynas â diogelu, data ar fwlio ac aflonyddu, camymddygiad mewn ymchwil a gwrthdaro buddiannau, efallai y bydd yn rhaid diwygio rhai o bolisïau Adnoddau Dynol y Brifysgol. Bydd hyfforddiant ac arweiniad yn ofynnol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion hyn a chefnogi staff i ymdrin â'r prosesau. Amlygodd rhai honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil a dderbyniwyd gan y Brifysgol angen i ymchwilwyr gael rhagor o gymorth er mwyn deall uniondeb ymchwil. Bydd yr angen am hyrwyddwyr uniondeb ymchwil – a allai weithredu mewn ffordd 'gysylltiedig' gydag adrannau eraill yn y Brifysgol megis y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio, ac Adnoddau Dynol – yn creu amgylchedd ymchwil gwell ar gyfer ymchwil y dyfodol drwy adrodd am broblemau a'u trafod yn well.

- **Noddi ymchwil a thrwydded meinweoedd dynol**

  Drwy benodi Swyddog Sicrhau Ansawdd, sy'n swydd newydd, a thrwy adolygu gofynion adnoddau a gofynion trwyddedu eraill ar y cyd â bwrdd iechyd lleol y GIG ar gyfer ymchwil i feinweoedd dynol, rhagwelir y gellir monitro cydymffurfiaeth ymchwil gofal iechyd yn briodol.

***Gwybodaeth bellach:***

Cafodd y datganiad hwn ei lunio gan y Rheolwr Uniondeb Ymchwil a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Uniondeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraeth y Brifysgol ar 19 Hydref 2021. Cyflwynir yr adroddiad i Senedd a Chyngor y Brifysgol. Rhoddir copi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac fe'i cyhoeddir ar dudalennau ymchwil y Brifysgol yn unol â gofyniad Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI).

Os oes gennych ymholiadau neu os hoffech wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil, e-bostiwch: researchintegrity@abertawe.ac.uk.

*Diwedd yr adroddiad*